

Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



Wythnos yma

Mae'r neuadd wedi bod yn llawn o gogyddion brwdfrydig wythnos yma wrth i ddisgyblion bl 4,5 a 6 gystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd. Y sialens oedd creu "wrap" blasus ac roedd y safon yn anhygoel! Diolch i Miranda ein cogyddes am feirniadu a diolch i Mrs Mari Williams am drefnu'r gystadleuaeth eleni. Llongyfarchiadau gwresog i Joseph Sweeney o ddosbarth Gronw am ennill! Bydd Joseph nawr yn cynrychioli Ysgol Treganna yng nghystadleuaeth Cogurdd, Caerdydd a'r Fro.

Cofiwch hefyd am ein cystadleuaeth PobUrdd i fl 4,5 a 6. Dyma gyfle i chi greu pedwar myffin adref dros y penwythnos a dod â nhw i'r ysgol dydd Llun. Mae manylion pellach yng nghyswllt wythnosol dydd Mawrth y 15fed o Hydref. Cofiwch fod pob cyswllt wythnosol a chylchlythyr ar wefan newydd yr ysgol.

Rydym wythnos yma, wedi bod yn dathlu "Diwrnod Shwmae/Su'mae" a diolch i'r Criw Cymraeg am gynllunio diwrnod llawn gweithgareddau hyfryd.

Heddiw, mae Criw'r Enfys wedi bod wrthi yn hyrwyddo "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth" ac rydym fel ysgol wedi bod yn codi ymwybyddiaeth at bwysigrwydd y diwrnod yma. Diolch i bwyllgorau'r disgyblion am eu gwaith gwych wythnos yma! Cofiwch i fynd ar gyfrif Instagram yr ysgol i weld lluniau o holl weithgareddau'r wythnos.

Calendr



**Nosweithiau
Rhieni
22/10/24
23/10/24**

**HMS (Dim ysgol
i ddisgyblion)
25/10/24**

Nosweithiau Rhieni

Cofiwch am ein nosweithiau rhieni nos Fawrth a nos Fercher nesaf, yr 22ain a'r 23ain o Hydref.

Bydd hyn yn gyfle i chi gyfarfod gydag athro/ athrawes dosbarth eich plentyn ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ysgol.

Cofiwch fod angen gwneud apwyntiad a bydd y linc apwyntiadau ar agor tan nos Sul y 26ain o Hydref.

www.parents-booking.co.uk

Diolch yn fawr.

Bws beic

Diolch i bawb, disgyblion, rhieni a staff am gynnal Bws Beic hynod o lwyddiannus heddiw. Mae'r niferoedd yn cynyddu yn gyson ac roedd 55 yn rhan o'r Bws Beic bore ma!

Diolch unwaith eto i Hamish a Sustrans am eu cefnogaeth.

Bydd y Bws Beic nesaf ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, dydd Gwener y 15fed o Dachwedd.

Croeso mawr i bawb!

Parcio yn ddiogel

Hoffwn eich atgoffa i barcio yn ddiogel o gwmpas yr ysgol wrth ollwng/casglu eich plant. Cofiwch fod mannau parcio gyferbyn yr ysgol ar gyfer gweithwyr y busnesau lleol.

Felly gofynnwn yn garedig i chi osgoi parcio yn y mannau yma.
Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Y Nyth

Diolch yn fawr i'r rhieni wnaeth fynychu'r Fforwm Rhieni neithiwr, roedd yn gyfarfod hynod o fuddiol a diolch i bawb am yr adborth cadarnhaol.
Diolch hefyd i Gareth Jones am gynnal sesiwn "Delio ag emosiynau mawr" i rieni heddiw yn y Nyth, ac i bawb wnaeth fynychu. Dyma linc i bwerbwynt y sesiwn.

Fe wnawn eich hysbysu yn fuan o'r sesiynau fydd ar gael ar ôl hanner tymor.
Diolch i Miss Mererid Lewis am drefnu'r holl weithgareddau yma.

Patrwm Iaith

Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos

Beth wyt ti am wneud dros yr hanner tymor?

Dros yr hanner tymor rydw i am...

Her

Rydw i'n gobeithio mynd/ gwneud

Edrychaf ymlaen at...

Testun trafod yr wythnos

Ar ddiwrnod gwlyb does dim yn well na...

Cân yr wythnos

Band Pres Llareggub - Cant A Mil (Lisa Jên)

Idiom yr wythnos

Rhoi'r ffidl yn y to